# Agenda

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus CNC** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Dydd Mercher, 21 Mai 2025** |
| **Amser y cyfarfod:** | **10am – 4.15pm** |

| Amser | Eitem |
|---|---|
| **Materion rhagarweiniol** | |
| 10:00<br>**(5 munud)** | **Eitem 1. Dechrau'r cyfarfod**<br>• Croeso<br>• Datgan buddiannau<br>• Egluro trefn y cyfarfod<br><br>Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)<br><br>**Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant.** |
| **Cyflawni Ein Cynllun – Archwiliad Dwfn Amcan Llesiant 2** | |
| 10:05<br>**(20 munud)** | **Eitem 2. Cyflwyniad i Amcan Llesiant 2 a fideo amdano**<br>Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol<br>Cyflwynwyr: Ruth Gregg, Pwyllgor Newid Hinsawdd<br><br>Yn bresennol: Mary Lewis, Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol; Clive Walmsley, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio; Ross Akers, Rheolwr, Cynllunio Strategol a Buddsoddi Perygl Llifogydd; Nicola Rimmington, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Rheoli'r Arfordir; Rick Park, Rheolwr Creu Cynefinoedd Cenedlaethol; Ruth Jenkins, Pennaeth Datblygiadau Cynllunio a Môrol<br><br>Crynodeb: Cyflwyniad i Amcan Llesiant 2 a fideo amdano; beth fydd y sesiwn ar Amcan Llesiant 2 yn ei gynnwys; cyd-destun y polisi hinsawdd<br><br>**Cyfeirnod y papur: 25-05-B01 (cyflwyniad)** |

| | |
|---|---|
| **10:25**<br>**(55 munud)** | **Eitem 3. Trosolwg o Amcan Llesiant 2 a chynnydd yn ei gylch**<br>Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol<br>Cyflwynwyr:  Mary Lewis, Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol; Clive Walmsley, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio; Ross Akers, Rheolwr, Cynllunio Strategol a Buddsoddi Perygl Llifogydd<br><br>Yn bresennol: Nicola Rimmington, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Rheoli'r Arfordir; Rick Park, Rheolwr Creu Cynefinoedd Cenedlaethol; Ruth Jenkins, Pennaeth Datblygiadau Cynllunio a Môrol<br><br>Crynodeb: Trosolwg o Amcan Llesiant 2 a'r cynnydd a wnaed gyda rhaglenni allweddol o dan bob thema Amcan Llesiant 2 a sesiwn holi ac ateb. |
| **11:20**<br>**(150 munud)** | **Cinio ac ymweliad â safle**<br>Yn bresennol: Nicola Rimmington, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Rheoli'r Arfordir; Rick Park, Rheolwr Creu Cynefinoedd Cenedlaethol; Huwel Manley, Pennaeth Gweithrediadau De Orllewin Cymru; Ross Akers, Rheolwr, Cynllunio Strategol a Buddsoddi Perygl Llifogydd; Ruth Jenkins, Pennaeth Datblygiadau Cynllunio a Môrol<br><br>Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Rheoli'r Arfordir |
| **13:50**<br>**(25 munud)** | **Eitem 4. Trafodaeth Strategol 1: Blaenoriaethu ein hymdrech i greu'r effaith fwyaf wrth ddarparu atebion ar sail natur i fynd i'r afael â newid hinsawdd**<br>Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol<br>Cyflwynwyr: Mary Lewis, Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol<br><br>Yn bresennol: Clive Walmsley, Uwch-gynghorydd Arbenigol – Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio; Ross Akers, Rheolwr, Cynllunio Strategol a Buddsoddi Perygl Llifogydd; Nicola Rimmington, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Rheoli'r Arfordir; Rick Park, Rheolwr Creu Cynefinoedd Cenedlaethol; Ruth Jenkins, Pennaeth Datblygiadau Cynllunio a Môrol |

| | |
|---|---|
| | Crynodeb: I drafod sut y gall CNC flaenoriaethu ymdrechion i gael yr effaith fwyaf ar ddarparu atebion ar sail natur i fynd i'r afael â newid hinsawdd<br><br>**Cyfeirnod y papur: 25-05-B02 (Cyflwyniad)** |
| **14:15**<br>**(25 munud)** | **Eitem 5. Trafodaeth Strategol 2: Ein rôl ar y tir yn ein gofal**<br>Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol<br>Cyflwynwyr: Rachel Chamberlain, Pennaeth Dros Dro Stiwardiaeth Tir; Andrew Wright, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion ac Ymchwil Trosglwyddo Gwybodaeth<br><br>Yn bresennol: Mary Lewis, Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol; Clive Walmsley, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio; Ross Akers, Rheolwr, Cynllunio Strategol a Buddsoddi Perygl Llifogydd; Nicola Rimmington, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Rheoli'r Arfordir; Rick Park, Rheolwr Creu Cynefinoedd Cenedlaethol; Ruth Jenkins, Pennaeth Datblygiadau Cynllunio a Môrol<br><br>Crynodeb: I drafod sut y gall CNC gyfrannu atebion ar sail natur i newid hinsawdd drwy reoli'r tir yn ein gofal.<br><br>**Cyfeirnod y papur: 25-05-B03 (Cyflwyniad)** |
| **14:40**<br>**(25 munud)** | **Eitem 6. Trafodaeth Strategol 3: Rhwystrau a chyfleoedd mewn perthynas â chyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni atebion ar sail natur**<br>Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol<br>Cyflwynwyr: Clive Walmsley, Uwch-gynghorydd Arbenigol – Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio<br><br>Yn bresennol: Mary Lewis, Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol; Ross Akers, Rheolwr, Cynllunio Strategol a Buddsoddi Perygl Llifogydd; Nicola Rimmington, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Rheoli'r Arfordir; Rick Park, Rheolwr Creu Cynefinoedd Cenedlaethol; Ruth Jenkins, Pennaeth Datblygiadau Cynllunio a Môrol<br><br>Crynodeb: I drafod y rhwystrau allweddol a'r hyn y mae CNC yn ei wneud i'w goresgyn.<br><br>**Cyfeirnod y papur: 25-05-B04 (Cyflwyniad)** |

| | |
|---|---|
| **15:05**<br>**(20 munud)** | **Egwyl** |
| **15:25**<br>**(20 munud)** | **Eitem 7. Crynodeb ac adborth**<br>Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol<br>Cyflwynwyr: Mary Lewis, Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol; Clive Walmsley, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio<br><br>Yn bresennol: Ross Akers, Rheolwr, Cynllunio Strategol a Buddsoddi Perygl Llifogydd; Nicola Rimmington, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Rheoli'r Arfordir; Rick Park, Rheolwr Creu Cynefinoedd Cenedlaethol; Ruth Jenkins, Pennaeth Datblygiadau Cynllunio a Môrol<br><br>Crynodeb: I roi crynodeb o'r themâu allweddol a'r argymhellion o'r trafodaethau |
| **15:45**<br>**(15 munud)** | **Eitem 8. Dull eirioli ar gyfer Amcan Llesiant 2**<br>Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol<br>Cyflwynwyr: Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol<br><br>Yn bresennol: Mary Lewis, Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol; Clive Walmsley, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio; Ross Akers, Rheolwr, Cynllunio Strategol a Buddsoddi Perygl Llifogydd; Nicola Rimmington, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Rheoli'r Arfordir; Rick Park, Rheolwr Creu Cynefinoedd Cenedlaethol; Ruth Jenkins, Pennaeth Datblygiadau Cynllunio a Môrol<br><br>Crynodeb: Er mwyn i'r Bwrdd DRAFOD eu barn ar y dull a amlinellir a chyflwyno enghraifft ymarferol i brofi a mireinio model CNC.<br><br>**Cyfeirnod y papur: 25-05-B05** |
| **16:00**<br>**(10 munud)** | **Eitem 8. Sut wnaethon ni berfformio yn y cyfarfod hwn?**<br>Noddwr: Syr David Henshaw, Cadeirydd<br><br>Crynodeb: Adolygiad o'r cyfarfod |
| **16:10**<br>**(5 munud)** | **Eitem 9. Unrhyw fater arall** |

| | |
|---|---|
| **16:15** | **Cau'r cyfarfod** |
| **16:15**<br>**(45 munud)** | **Cyfarfod y Cyfarwyddwyr Anweithredol** |

# Papur Bwrdd CNC

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | Rhowch ddyddiad |
| **Teitl y papur:** | Rhowch deitl yma |
| **Cyfeirnod y papur:** | 25-05-B05 |
| **Noddwyd y papur gan:** | Sarah Jennings |
| **Paratowyd y papur gan:** | Meinir Wigley a Lynette Bowley |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Meinir Wigley a Lynette Bowley |
| **Diben y papur** | Trafodaeth |
| **Crynodeb** | Mae'r papur hwn yn ceisio barn y Bwrdd ar y dull graddol â ffocws hwn i brofi a mireinio ein model. |

## Cefndir

1. Yn ein cynllun corfforaethol hyd at 2030, fe wnaethom ymrwymo i gamu'n fwy hyderus i rôl eiriolaeth, gan ddefnyddio ein harbenigedd a'n tystiolaeth i lunio'r systemau ehangach sy'n effeithio ar ganlyniadau amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys dylanwadu ar benderfynwyr cenedlaethol a lleol, arweinwyr sectorau, a'r cyhoedd ehangach ar faterion a fydd yn diffinio dyfodol cymunedau ac amgylchedd Cymru.

2. Fe wnaethon ni gyflwyno papur i'r Bwrdd ym mis Medi 2023 yn wreiddiol, yn amlinellu ein dull bwriadedig o ymdrin ag eiriolaeth ar y pryd, a'r themâu awgrymedig y byddem yn mynd i'r afael â nhw. 'Dim mwy o fawn', bwyd, a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus oedd y rhain.

3. Yn dilyn cyfnod o newid yn CNC, rydym wedi manteisio ar y cyfle i adolygu'r dull awgrymedig hwnnw, gan sicrhau ei fod wedi'i ymgorffori yn ein dull materion allanol ehangach, ac ailystyried y themâu posibl y dylem eu dilyn.

4. Yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, cytunwyd bod eiriolaeth CNC yn ymwneud â dylanwadu ar y systemau, y polisïau a'r penderfyniadau sy'n llunio amgylchedd Cymru, drwy fod yn bob un o'r canlynol:

- Dan arweiniad polisi – Defnyddio tystiolaeth a mewnwelediad i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru, partneriaid a rheoleiddwyr drwy gydol y flwyddyn.
- Wedi'i gyrru gan randdeiliaid – Adeiladu cynghreiriau a gweithio ar y cyd i alinio ein blaenoriaethau â rhai sectorau ehangach.
- Strategol a gwleidyddol – Datblygu perthnasoedd dibynadwy â gweinidogion, ASau, gweision sifil ac eraill i lunio cyfeiriad cenedlaethol.
- Yn seiliedig ar le – Ymgysylltu'n rhanbarthol â chymunedau, partneriaid cyflawni ac arweinwyr lleol i gysylltu polisi cenedlaethol ag effaith leol.
- Ymwybodol o ymgyrchoedd – Defnyddio adegau fel etholiad y Senedd i godi uchelgais, tyfu cefnogaeth, a sicrhau bod blaenoriaethau amgylcheddol yn cael eu hadlewyrchu mewn maniffestos a'r rhaglen lywodraethu.

5. Mae'r papur hwn yn nodi sut rydym yn bwriadu cychwyn dull eiriolaeth strwythuredig o fewn y sefydliad, gan ystyried ein bod wedi mynd trwy gyfnod o newid.

## Ein dull o weithredu

6. Mae ein dull newydd ar gyfer eiriolaeth yn cynnig:

- **Alinio ymdrechion eiriolaeth yn uniongyrchol â'n hamcanion llesiant**, gan sicrhau bod ein gweithgaredd dylanwadu wedi'i seilio ar flaenoriaethau corfforaethol, yn osgoi newid y genhadaeth, ac yn cefnogi cyflawniad. Mae'r aliniad hwn yn cryfhau atebolrwydd ac yn darparu rhesymeg glir dros ein llais ar unrhyw fater penodol.
- **Dechrau gydag ymgyrchoedd wedi'u targedu** sy'n canolbwyntio ar faterion arwahanol, effaith uchel sy'n bwysig i gymunedau a natur. Bydd yr ymgyrchoedd cychwynnol hyn yn ein galluogi i adeiladu momentwm, profi ffyrdd o weithio, a datblygu gallu sefydliadol mewn ffordd reoledig – gan ddysgu beth sy'n apelio at gynulleidfaoedd allanol a beth sy'n sbarduno newid.
- **Sefydlu mecanwaith cydlynu mewnol strwythuredig** i sicrhau cysondeb ar draws cyfarwyddiaethau a swyddogaethau. Bydd hyn yn helpu i osgoi dyblygu, blaenoriaethu ymdrech, a sicrhau negeseuon a thôn gyson. Bydd hefyd yn cefnogi cynllunio busnes, gan sicrhau bod gwaith dylanwadu yn cael adnoddau priodol ac yn cael ei werthuso'n briodol.
- **Ymgysylltu ag eraill yn barchus ac yn adeiladol**, gan gydnabod ein bod yn un llais ymhlith llawer. Lle mae eraill mewn gwell sefyllfa i arwain ar fater, byddwn yn eu cefnogi ac yn rhoi mwy o lais iddynt. Lle mae CNC yn dod â gwybodaeth, tystiolaeth neu gyfreithlondeb nodedig, byddwn yn camu ymlaen yn hyderus. Ein nod yw ychwanegu gwerth – nid sŵn – at y ddadl.

Bydd y dull eiriolaeth llawn yn cael ei gymryd i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ym mis Mehefin. Felly, rydym yn gofyn i'r Bwrdd drafod y cynnig cychwynnol hwn ar gyfer dull graddol â ffocws ar gyfer eiriolaeth sy'n cyd-fynd â'n amcanion llesiant ac yn gosod CNC fel llais cryf a chredadwy dros newid systemig i gefnogi'r argyfyngau hinsawdd, natur a llygredd.

## Treialu'r dull

7. Rydym yn cynnig dechrau gydag ymgyrchoedd wedi'u targedu sy'n deillio o'r camau i'w cymryd a nodir o dan ein hamcanion llesiant ac yn bwriadu profi ein dull awgrymedig gydag Amcan Llesiant 2: Mae cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

8. Byddwn yn cyflwyno cysyniad eiriolaeth enghreifftiol ar gyfer maes ffocws posibl a nodwyd, y gallwn ei ddefnyddio i brofi ein llais, meithrin gallu, a dylanwadu ar newid system ehangach.

## Cwestiynau i'r Bwrdd eu hystyried

a) Ydych chi'n cefnogi cyfeiriad a strwythur cyffredinol y dull eiriolaeth gam wrth gam arfaethedig?

b) Ydych chi'n gyfforddus â'r dull arfaethedig o ddewis a phrofi themâu, neu a fyddech chi'n awgrymu unrhyw welliannau?

c) Sut gall y Bwrdd gefnogi datblygiad llais eiriolaeth hyderus, cydlynol a chydweithredol ar gyfer CNC orau?

## Risgiau, y parodrwydd i dderbyn risg a chyfleoedd

9 Gofynnir i'r Bwrdd roi adborth ar y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

10 Efallai na fydd aelodau'r Bwrdd yn cytuno â'r dewisiadau thema ac yn awgrymu rhai eraill, e.e. ansawdd dŵr.

11 Os na fyddwn yn dilyn ein huchelgeisiau o ran eiriolaeth, gallai fod yn gyfle a gollwyd i ddylanwadu ar systemau cenedlaethol yn ystod cyfnod o newid, peri risg i'n henw da yn sgil peidio â defnyddio ein llais yn effeithiol, ac arwain at golli momentwm wrth gyflawni yn erbyn ymrwymiadau ein cynllun corfforaethol ein hunain.

12 Mae risg y gallem gael ein herio gan eraill a allai gredu ein bod yn camu i diriogaeth lle maen nhw'n teimlo nad ydym yn perthyn. Ein nod yw lliniaru'r risg hon drwy ddechrau'n fach, cydlynu'n fewnol a monitro effaith.

## Cyfleoedd

- Dylanwad mwy ar yr amgylchedd polisi sy'n effeithio ar ganlyniadau ym myd natur a'r hinsawdd
- Perthnasoedd cryfach â chyrff a sectorau cyhoeddus eraill
- Mwy o amlygrwydd i CNC fel llais dibynadwy sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth
- Cydweddu ag Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

## Goblygiadau ehangach

(a) **Amcanion llesiant:** Mae'r dull eiriolaeth wedi'i alinio'n uniongyrchol â'n hamcanion llesiant a'r camau i'w cymryd o dan bob un.

(b) **Cyllid:** Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol uniongyrchol. Efallai y bydd angen cynllunio adnoddau ar gyfer camau yn y dyfodol.

(c) **Goblygiadau o ran adnoddau:** Bydd hyn yn cael ei gyflawni o fewn adnoddau staff presennol.

(d) **Cydraddoldeb:** Amherthnasol

(e) **Diogelu data:** Ni chanfuwyd unrhyw broblemau diogelu data ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw ddata personol yn cael ei brosesu.

## Y camau nesaf

13 Rydym yn bwriadu cyflwyno'r dull eiriolaeth llawn i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ym mis Mehefin i'w drafod a'i gymeradwyo, a'i gyflwyno'n ôl i'r Bwrdd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

13 Yna byddwn yn dechrau cynllunio ymgyrch fanwl yn seiliedig ar ein meysydd ffocws cychwynnol, gan gynnwys dadansoddi tystiolaeth.

## Argymhelliad

14 Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r dull eiriolaeth bwriadedig hwn.

## Rhestr atodiadau

Darparwch unrhyw wybodaeth ategol:

## Y broses gymeradwyo/ymgynghori

| | |
|---|---|
| **Y broses gymeradwyo/ymgynghori**<br><br>**Cyfrifoldeb:** Pwy sydd wedi datblygu'r papur/proses, a phwy sydd wedi rhoi mewnbwn? | Lynette Bowley<br><br>Meinir Wigley |
| **Yn atebol:** Pwy sy'n atebol am y gymeradwyaeth derfynol? Pwy fydd yn cymeradwyo, neu pwy y gofynnir iddo gymeradwyo? | Prif Weithredwr |
| **Ymgynghori:** Â phwy yr ymgynghorwyd hyd yma? Pan fydd angen cymeradwyaeth, a ydyw hon ar waith? A fydd angen ymgynghori pellach? | Ymgynghorwyd â Sarah Jennings a Phil Williams hyd yn hyn. Bydd angen ymgynghori ymhellach â chydweithwyr mewn meysydd penodol o'r busnes lle rydym yn bwriadu canolbwyntio ein heiriolaeth hefyd. |
| **Hysbysu:** Pwy sydd wedi cael gwybod neu pwy sydd angen ei hysbysu ymhellach am y gwaith? | Bydd angen hysbysu'r Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain. |